OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2011 Rhif 270 (Cy.49)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011

Gwnaed - - - -	*8 Chwefror 2011*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*9 Chwefror 2011*
Yn dod i rym - -	*4 Mawrth 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 33Q o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000(**1**).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Cwricwlwm Lleol mewn Sefydliadau Addysg Uwch (Cymru) 2011 a deuant i rym ar 4 Mawrth 2011.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "corfforaeth addysg uwch" yr ystyr a roddir i "*higher education corporation*" gan adran 90(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**2**);

ystyr "Deddf 2000" ("*the 2000 Act*") yw Deddf Dysgu a Sgiliau 2000;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol i Fyfyrwyr 16 i 18 oed) (Cymru) 2011(**3**);

ystyr "sefydliad AU" ("*HE institution*") yw sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch.

Cymhwyso cwricwlwm lleol sefydliadau AU

3.—(1) Pan fo sefydliad AU yng Nghymru yn darparu addysg uwchradd neu addysg bellach ar gyfer myfyrwyr sydd heb gyrraedd pedair ar bymtheg oed, mae adrannau 33A i 33L, 33N a 33O o

(**1**) 2000 p.21. Mewnosodwyd adran 33Q gan adran 38 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (mccc 1).
(**2**) 1992 p.13.
(**3**) O.S. 2011/107 (Cy. 26).